# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION
## MEHEFIN 2012

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 20fed Mehefin |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Neuadd Rhostryfan |
| **AELODAU YN BRESENNOL** | Michelle Williams, Meurig Williams, Elwyn Jones, Jason Hunt, Nerys Evans, Elin Evans, Gwilym L.Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Bethan Williams (Clerc) |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Aelod newydd, Michelle Williams, fydd yn cynrychioli ward Rhosgadfan yn ymuno<br>Yn absenoldeb Gwilym V.Thomas, cadeirwyd y cyfarfod gan Elin Evans. Roedd am i ni ddatgan ein diolchiadau i bawb fu'n gwirfoddoli ym maes parcio'r Urdd. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Gwilym V.Thomas, Neal Williams, Aeron M.Jones |
| 3. | **Datgan Buddiant** |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion**<br>Nodwyd fod enw Elin Evans heb ei gofnodi mis diwethaf. Cadarnhawyd fod gweddill y cofnodion yn gywir gan JH ac ElJ. |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br>a. Clerc i drafod lleoliadau cyfarfodydd. Trafod mynd yn ol i Llanwnda ai peidio. Clerc i wneud trefniadau i fynd yn ol yno.<br>b. Comisiwn Ffiniau – awgrymu fod ward Dinas yn ymuno efo Bontnewydd a bod wardiau Rhostryfan a Rhosgadfan yn ymuno efo Carmel a Cesarea i greu etholaeth newydd o'r enw Tryfan. Aelodau'n teimlo nad yw'n welliant ar y sefyllfa bresennol gan nodi geiriad yr adroddiad "Er y nodwn na fyddai trefniant o'r fath yn cyflawni'r un gwellaint o ran lefel cydraddoldeb etholiadol". Nodwyd fod y ganran etholwyr yn uwch na'r disgwyl a bod yr ardal hon yn wasgaredig iawn, 20% yn fwy o bobl dan oruchwyliaeth un aelod ddim yn dderbyniol.<br>c. Parc chwarae Rhostryfan – wedi derbyn cwynion. Darllenwyd y gwyn a'r ateb a roddwyd a nodwyd nad oes angen unrhyw sylw pellach.<br>d. RhO – ffordd osgoi – unrhyw wybodaeth – llythyr wedi dod i law yn nodi nad oes dyddiad pendant ar gyfer cychwyn y gwaith wedi'i benderfynu.<br>e. ElJ – arwydd brown – holi am gost"llwybr llechi Bryngwyn slate trail". Clerc wedi cael cyfarfod efo swyddog Cyngor Gwynedd – angen trafodaeth bellach efo'r aelodau. Clerc i fynd ymlaen i archebu dau arwydd.<br>f. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grant pellach o £30k i wella darn o |

| | |
|---|---|
| | Lein Bryngwyn sy'n arwain o Rhostryfan i Garmel. Trefnwyd is-bwyllgor Lein Bryngwyn ar gyfer nos Fercher, 27ain o Fehefin yn Rhostryfan.<br>g. Clerc i gysylltu eto efo CC Llandwrog i drafod Lein Bryngwyn. Gwahodd y Cadeirydd i bwyllgor penodol.<br>h. MW – Lôn Beudy – drain, eithin, mieri<br>i. ElJ – Maen Brith/Waun Bant holi i ledu – clerc i holi<br>j. EE – dwr tu allan i Ganolfan Felinwnda<br>k. GLW – dros y ffordd i Isfryn, dwr yn dod o Bryn Glas, tyllau yn y ffordd<br>l. Coeden tu ol i ciosg Rhos Isaf – clerc i gysylltu efo Wyn<br>m. NE – biniau fynwent heb eu gwagio yr wythnos diwethaf. Clerc wedi ymholi ac wedi cael sicrhad y byddant yn cael eu gwagio'n rheolaidd o hyn allan.<br>n. NE – llinellau atal parcio yn sgwâr Rhostryfan – angen arwyddion<br>o. NE – cofeb ar y tir comin ger Tan y Gaer – angen mynd yn ôl at y Goron. Cysylltu efo porwyr i weld os fedran nhw helpu.<br>p. Penderfynwyd archebu mainc fawr efo'r geiriau Cyngor Cymuned Llanwnda a'r ddraig goch arni, er cof am Dewi Tomos, a'i gosod yn yr hen orsaf, Rhostryfan. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Mynychodd Michelle gwrs ar gyfer cynghorwyr newydd yng Nghaernarfon ar y 6ed o Fehefin<br>Bydd cyfle i fynychu hyd at 8 modiwl ym mis Medi ar gyfer cynghorwyr. Aelodau i gysylltu efo'r clerc os am fynychu. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Is-bwyllgor Lein Bryngwyn – wythnos nesaf – 27ain o Fehefin, 7pm |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | **Materion Ariannol** | |
| | Cyfri Cadw: | 11,609.04 |
| | Cyfri Siec: | 1,108.56 |
| | Taliadau: | |
| | Cyflog/costau clerc Mehefin | 418.65 |
| | Cyllid y Wlad | 98.40 |
| | Gwasg y Bwthyn – pamffledi Bryngwyn | 72.00 |
| | Sion Owen | 420.00 |
| | Menter Fachwen – prynu blodau, pridd etc a'u plannu yn Saron, Rhostryfan a Rhosgadfan (pot blodau wedi'i ddwyn o safle Rhostryfan ar 13.06.12– heddlu yn chwilio mewn i'r mater) | 168.00 |
| | Archwiliad ariannol – Cadeirydd 2011-2012, Elwyn Jones, wedi arwyddo'r dogfennau | |

| | |
|---|---|
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Gorchymyn cau'r ffordd dros dro ger Bodgadfan Uchaf, Rhosgadfan<br><br>Deddf Trwyddedu – cais am drwydded ar gyfer Garej Dolydd<br><br>C12/0588/24/LL – sied amaethyddol ger Mynwent Cefnfaes – rhy agos i fynwent, efo silwair yn ogleuo, o ystyried y trafferthion blaenorol rydym wedi'i gael efo'r ysgol farchogaeth yn difwyno'r pentrefi cyfagos. Yn ogystal ar ddiwrnodau cynhebrwng mae problemau traffig yn gwaethygu, ac rydym yn bwriadu ychwanegu at y fynwent. Gofyn wrth Aeron Jones ymholi ymhellach.<br>C12/0496/24/LL – Hafod Owen, Rhosgadfan – sied amaethyddol – rhy fawr i'r safle<br>C12/0527/24/LL – sied amaethyddol, Fferm Dinas – dim gwrthwynebiad |
| 10. | **Gohebiaeth:**<br>a. Cylchgronnau |
| 11. | **Materion mis nesa**<br>a. Pobl i fod yn wyliadwrus gan fod eitemau wedi'i dwyn o fferm Gilwern Uchaf.<br>b. MW – bin baw cwn wedi diflannu o Penyffridd<br>c. ElJ – Ffrwd Cae Du – arwydd bron a disgyn. Arwydd ysgol yn cael ei guddio wrth ymyl Plas Llanwnda<br>d. Clerc i gysylltu efo Meirion Williams yn nodi y gordyfiant sylweddol yn yr ardal<br>e. JH – cwyn am lwybr Cae Coch<br>f. NE – dwy goeden y fynwent, un wedi marw<br>g. NE – gofyn am brisiau i gael gosod y cerrig beddi yn well |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm |